

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Cyflwyniad a'r Cyd-destun

Awdurdod Parc Cenedlaethol yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE). Mae gan y cyfan o'r tri Parc Cenedlaethol yng Nghymru ddau bwrpas statudol, sef:

- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal
- Hyrwyddo cyfleoedd fel y gall y cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardal.

Mae'n ofynnol trwy gyfraith hefyd i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru – wrth iddynt gyflawni'r pwrpasau hyn – hyrwyddo lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol.

Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn 823 milltir sgwar o ran maint ac yn gartref i 25,702 o bobl, 33.2% ohonynt dros 60 oed, ac mae tua 59% o'r preswylwyr yn siarad Cymraeg. Mae 70% o'r Parc Cenedlaethol dan berchnogaeth breifat; mae'r gweddill yn eiddo i'r Wladwriaeth mewn un ffordd neu'i gilydd. Tua 0.45% o'r ardal sydd yn eiddo i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Mae APCE yn gaeth i Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (DCD). Mae APCE yn bartner ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gogledd Orllewin Cymru, ac yn eistedd ar is-grŵp Newid Hinsawdd y BGC. Ar y funud mae APCE yn arwain ar gyd-gynhyrchu Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri (am y cyfnod 2020-2025). Mae Dyletswydd Adran 6 yn gysylltiedig â chyflawni amcanion Deddf DCD (yn cynnwys nôd Cymru Gadarn) gan APCE a'r 5 dull o weithio drwy Gynllun Rheoli APCE. Ymhlith pwrpasau eraill, mae'r Cynllun Rheoli hwn yn cyflawni pwrpas statudol Adran 6 o'r Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth a'r Cynllun Llesiant sydd yn ofynnol gan yr APC o dan ddeddfwriaeth Cymru. Mae egwyddorion rheolaeth gynladwy dros adnoddau naturiol yn greiddiol i lawer o waith APCE. Mae APCE yn chwarae rhan lawn ym Mhroses Datganiad Ardal CNC e.e. mynychu a rhoi mewnbwn i nifer o weithdai cyd-gynhyrchu a digwyddiadau ymgynghori. Rhagwelir y bydd cynnwys Datganiadau gogledd-orllewin Cymru a'Datganiadau'r Ardal Forwrol yn weddol gyson gyda Chynllun Rheoli APCE pan gânt eu cyhoeddi.

Cafodd y weledigaeth ar gyfer y Parc ei mabwysiadu gan yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2009 yn dilyn ymgynghori eang gyda'r cyhoedd ac hefyd gyda'n rhanddeiliaid allweddol. Mae'r weledigaeth ar gyfer y Parc (yn y Cynllun Rheoli Parc a'r Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwella 2018-19) wedi ei osod allan yn rhannol isod:

Erbyn 2035 bydd Eryri yn parhau i fod yn dirwedd fydd yn esblygu ac wedi ei ddiogelu a'i wella i ddarparu amgylchedd cyfoethog ac amrywiol, yn cynnig manteision i'r gymdeithas, yr economi a llesiant yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Caiff pwrpasau y Parc Cenedlaethol eu cyflawni trwy addasu economi lewyrchus ac amrywiol i heriau newid hinsawdd a hyn yn seiliedig ar ei adnoddau naturiol – ansawdd ardderchog y tirwedd, cyfleoedd ar gyfer dysgu a mwynhau, treftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Gyda chymunedau dwyieithog a chynhwysol, bydd gweithio mewn partneriaeth yn dangos y

gellir cyflawni mwy trwy weithio gyda'n gilydd.

Uchafbwyntiau, Deilliannau a Materion Allweddol

Uchafbwyntiau

Yn sicr mae statws APCE fel prif fuddiolwr Prosiect LIFE Fforestydd Glaw Cymru 2018-2025 (<https://celticrainforests.wales>) a buddiolwr cysylltiedig ar brosiectau LIFE Afon Dyfrdwy 2020-2025 a LIFE Cyforgorsydd 2018-2023 (<https://naturalresources.wales/about-us/our-projects/nature-projects/new-life-for-welsh-raised-bogs/?lang=en>). Mae prosiect Sands of LIFE – dan arweiniad CNC - yn awr ar droed ac yn cynnwys dau safle twynni yn Eryri – mae APCE yn rhanddeiliad gweithredol.

APCE yw'r partner arweiniol ym Mhartneriaeth Cronfa Loteri 'Treftadaeth Tirwedd y Carneddau' 2020-2025. Mae hwn yn brosiect gwerth £4M ar y cyd gyda nifer o sefydliadau eraill, nifer ohonynt yn ymwneud â bioamrywiaeth.

APCE yw'r partner arweiniol gyda phrosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru sef Prosiect SMS Mawndiroedd Cymru (£1M) 2018-2020, Prosiect SMS Uwch Gwyrfai, a Phrosiect SMS Afon Eden.

Mae'r prosiectau hyn yn hyrwyddo adfer natur ar raddfa sylweddol yng Nghymru. Mae APCE yn bartner yn y prosiectau SMS Coed Cymru a Fferm Ifan.

Ysyrir bod statws APCE fel partner yn y prosiect Partneriaeth Natur Lleol 2020-2022 a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn hanfodol ar gyfer adeiladu capasiti, casglu data, adfocatiaeth a chyflawni gwelliant S6/bioamrywiaeth yn Eryri.

Mae Partneriaeth Eryri a'i gynllun ar gyfer yr ardal sef Cynllun Yr Wyddfa, a Fforwm Eryri – a grewyd ar gyfer cyd-gynhyrchu cynllun newydd sef Cynllun Partneriaeth y Parc Cenedlaethol (Cynllun Eryri) – yn sicrhau bod aelodau o bob sector yn yr ardal yn cyfrannu'n llawn tuag at y broses o lunio penderfyniad ar bob agwedd o gadwraeth o fewn y Parc Cenedlaethol.

Canlyniadau allweddol

Mae'r pwyslais cynyddol yng Nghymru ar Adran 6 Dyletswydd Bioamrywiaeth yn golygu'n gyffredinol bod mwy o aelodau awdurdod, uwch reolwyr, staff a phartneriaid yn ymwybodol o'r Dyletswydd ac o bwysigrwydd gallu arddangos cydymffurfiaeth ystyrlon. Mae amseru cyflwyno Dyletswydd Adran 6 newydd ochr yn ochr gyda'r broses o gynhyrchu'r Cynllun Rheoli APCE (Cynllun Eryri) diweddaraf wedi bod yn gyfle i lwyr integreiddio bioamrywiaeth a llesiant i mewn i ddogfen strategol bwysicaf APCE.

Materion

Mae angen rhagor o wrthgymhelliant yn genedlaethol er mwyn rhwystro pobl rhag cyflymu dirywiad bioamrywiaeth trwy osgoi trefn gywir e.e. datblygu/clirio safle cyn gwneud cais.

Mae'n benbleth barhaus pam nad yw ceisiadau am hawl Rheoliadau Adeiladu ar gyfer rhai gweithiau megis ail-doi yn gorfod derbyn Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd gan awdurdodau cymwys a pherthnasol.

Dylid defnyddio mesurau ychwanegol lle bo'n addas wrth gaffael trwy ddulliau sydd yn caniatáu defnyddio pwysoli ar sail bioamrywiaeth neu natur. Dylai'r rhai hyn gael eu teilwrio yn unigol i fod yn addas ar gyfer pob amgylchiad os ydynt i fod yn hollol effeithlon.

Mae prosiect Awyr Dywyll Gogledd Cymru sef y 'Prosiect Nos' wedi bod yn ardderchog o ran cael cymunedau gogledd Cymru i rannu manteision niferus awyr dywyll. Fodd bynnag, mae angen menter fydd yn hyrwyddo disodli'r goleuwyr hynny yn yr ardal sydd yn cydymffurfio leiaf gydag Awyr Dywyll ar raddfa drawsnewidiol.

Adroddiad Gweithredu

NRAP Amcan 1: Defnyddio a chefnogi cyfranogi a deall er mwyn cynnwys bioamrywiaeth ym mhob lefel o lunio penderfyniad:

Camau i'w cymryd ar gyfer:	Enghreifftiau:	Mesurau a/neu dangosyddion gaiff eu monitro:
Cynnwys gweithgaredd bioamrywiaeth ar draws pob digwyddiad gan y sefydliad	<p>Mae pwrpas statudol cyntaf APCE yn cynnwys gwarchod a gwella bywyd gwyllt yr ardal. Mae bioamrywiaeth yn ganolog i Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol ac oherwydd hynny yn nodwedd greiddiol ym mhob prosiect a amlinellir yn y Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol (Cynllun Eryri) newydd y sydd i'w lansio ym mis Mai 2020. Mae APCE wedi bod yn cyd-gynhyrchu ei Gynllun Rheoli Parc Cenedlaethol trwy gynnal cyfres eang o ymgynghoriadau (ymgynghoriad olaf yn Ionawr/Chwefor 2020), digwyddiadau gyda phanelau arbenigol, gweithdai, sioeau teithiol, arolygon, cyfarfodydd Fforwm Eryri ac ymgynghoriadau ar-lein (ymgynghori trwy gyfrwng gwefan APCE, fideo, Facebook a Twitter).</p> <p>Mae Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 – 2031 a fabwysiadwyd gan APCE yn cynnwys Polisi Strategol D: Amgylchedd Naturiol. Un agwedd o'r polisi yw na ddylai cynigion effeithio'n niweidiol ar adnoddau bioamrywiaeth y Parc Cenedlaethol gan gynnwys safleoedd dynodedig ar bob lefel, o'r lleol hyd y rhyngwladol, yn ogystal ag adnoddau bioamrywiaeth ehangach e.e. cynefinoedd a rhywogaethau y tu allan i safleoedd dynodedig.</p> <p>Mae nifer enfawr o broblemau wedi cynyddu, yn benodol ar Yr Wyddfa fel y mynydd yr ymwelir ag ef amlaf yn y DU. APCE oedd yn arwain y cywaith o gynhyrchu Cynllun Partneriaeth yr Wyddfa 2018-2023 - gweler https://www.snowdonpartnership.co.uk/read-me</p> <p>Bydd staff polisi APCE a swyddogion eraill fel bo'n addas yn cyfrannu sylwadau yn rheolaidd ar ymateb swyddogol i nifer o ymgynghoriadau – a bioamrywiaeth yn un o'r materion (e.e. gan Lywodraeth Cymru, CNC ayyb). Gall y rhain fod yn rhan o ymateb ar y cyd gan Barciau Cenedlaethol Cymru, neu yn ymateb unigol gan APCE – yn unol â natur yr ymgynghoriad.</p> <p>O ystyried dau brif bwrpas y Parc Cenedlaethol, mae'r Awdurdod i gyd yn anelu at gyflawni mesurau bioamrywiaeth fel rhan o'i waith bob dydd.</p>	<p>Mae Cynllun Rheoli APCE yn cynnwys nifer o drefniadau monitro a mesur llwyddiant yr adroddir arnynt yn flynyddol i'r Awdurdod. Caiff Adroddiad Cyflwr y Parc ei gyhoeddi bob 5 mlynedd.</p> <p>Mae dangosyddion monitro wedi eu cynnwys yn Adran 5 ac Atodiad 1 (Tabl 1) o Adroddiad Monitro Blynyddol CDLI Eryri e.e. . >20km o wrychoedd wedi eu plannu rhwng 2016-2019.</p> <p>Mae 'Sut Byddwn yn Orlhain Cynnydd' (tud.50) o Gynllun Partneriaeth yr Wyddfa yn rhoi manylion am ddangosyddion y cynllun.</p> <p>Nifer o ymatebion ymgynghoriad, a natur y sylwadau yn ymwneud â bioamrywiaeth.</p>

<p>Codi ymwybyddiaeth ynghylch bioamrywiaeth a'i bwysigrwydd ledled y sefydliad.</p>	<p>Mae aelodau staff APCE staff yn darparu hyfforddiant a mewnbwn rheolaidd ar gyfer Aelodau APCE ar faterion bioamrywiaeth (e.e. Cynhelir sesiynau hyfforddiant / seminarau ac ymweliadau â safleoedd ac eiddo APCE a safleoedd prosiect, gweithdai Addasu Newid Hinsawdd i Aelodau, Pwyllgorau Cynllunio). Mae arbenigedd allanol ar gael i Aelodau pan fydd angen (e.e. cyflwyniad gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru i Aelodau APCE ym mis Mai 2019 ar ecoleg yr afanc a diweddariad ar y cais am drwydded i ollwng afancod yn rhydd i aber afon Dyfi).</p> <p>Bydd cylchlythyrau mewnol, cyflwyniadau rheolaidd mewn cyfarfodydd staff a chylchlythyrau ebost hefyd yn diweddarau staff, aelodau yr Awdurdod ac ystod eang ein Partneriaid.</p> <p>Caiff cyfryngau cymdeithasol eu defnyddio yn effeithlon a rheolaidd i gynyddu ymwybyddiaeth am waith y Parc Cenedlaethol ac am faterion bioamrywiaeth.</p> <p>Caiff ein papur newydd allanol ei gyhoeddi unwaith y flwyddyn, gydag adroddiad ar waith y Parc ac yn cynnwys hefyd adrannau arbenigol ar fioamrywiaeth a diweddariad ar yr holl brosiectau yr ydym yn ymwneud â hwy.</p> <p>Bydd APCE yn buddsoddi amser sylweddol er mwyn codi ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd bioamrywiaeth i'r rhai fydd yn llunio penderfyniadau yn y dyfodol. Mae APCE yn cyflogi swyddog addysg gynradd llawn amser wedi ei leoli yng Nghanolfan Addysg Awyr Agored y Parc Cenedlaethol ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog. Cyflogir gweithiwr allanol i gyflawni peth gwaith ar lefel addysg uwchradd. Bydd APCE yn trefnu nifer o gyrsiau bioamrywiaeth bob blwyddyn ym Mhlas Tan y Bwlch (PTYB). Mae gwaith Gwasanaeth Wardeinio APCE (≤10 Warden, yn amrywio fesul tymor) yn golygu egluro pwysigrwydd bioamrywiaeth i gymunedau lleol ac ymwelwyr fel rhan o'u gwaith dydd i ddydd.</p>	<p>Bydd staff APCE yn cyfrannu'n rheolaidd tuag at gyrsiau PTYB (e.e. Cwrs preswyl 4-diwrnod MSc. ar Fioamrywiaeth gan Goleg Prifysgol Llundain). Am y tair blynedd diwethaf mae staff APCE wedi bod yn traddodi darlithoedd i fyfyrwyr newydd Gwyddorau Naturiol Prifysgol Bangor ac yn dangos sut y gallant hyrwyddo bioamrywiaeth.</p>
--	--	---

--	--	--

NRAP Amcan 2: Diogelu prif rywogaethau a chynefinoedd a gwella rheolaeth drostynt.

<p>Diogelu prif rywogaethau a chynefinoedd</p>	<p><u>Misglen Berlog yr Afon (FWPM) a Salmonidau</u> Mae APCE yn chwarae rhan weithredol ar Grŵp Arolygu FWPM Cymru. APCE sydd yn arwain grŵp y ffermwyr (18 o denantiaid/tirfeddianwyr) ar brosiect SMS Afon Eden gan ymgymryd â nifer o gamau er gwella cyflwr ACA yr Afon Eden er budd y rhywogaethau/nodweddion sydd ynddi (e.e. eogiaid, FWPMs, dyfrgwn). Mae APCE yn fuddolwr cysylltiol ar brosiect LIFE Afon Dyfrdwy 2020-2025.</p> <p><u>Gylfinir Cymru</u> Mae APCE yn aelod o Grŵp Glyfinir Cymru. Mae Partneriaid megis yr RSPB a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ymwneud â'r Treialon Rheoli Gylfinir ledled y DU ac yn ardal Ysbyty Ifan. Mae'r cam nesaf gan APCE yn cynnwys datblygu cynnig ar gyfer monitro niferoedd gylfinir magu a pha mor gynhyrchiol ydynt mewn ardaloedd eraill yn Eryri e.e.. Cors Goch, Trawsfynydd.</p> <p><u>Brithell y Gors</u> Mae arian cyfalaf wedi ei glustnodi ar gyfer gwaith ffensio a chyflwyno gwartheg cynhenid i bori ar ran o dir SoDdGA Llwyniarth lle mae <i>Molinia</i> yn flaenllaw a'r tir heb gael ei bori'n foddhaol.- mae hwn yn agos at un o brif safleoedd brithell y gors yng Ngogledd Cymru. Mae 6ha o gyforgors goediog yn cysylltu'r ddau safle ac wedi ei adfer trwy dorri coed. Cafwyd cyngor gan arbenigwyr brithell y gors ynghylch y dulliau gorau o sefydlu'r <i>Succisa foodplant</i>.</p> <p><u>Ystlumod</u> Cafodd nifer o fesurau gwarchod ystlumod eu hyrwyddo gan APCE e.e. sicrhau a darparu arian i bartneriaid ar gyfer gwella adnoddau gaeafgysgu, clwydo a magu.</p> <p><u>Cynllunio</u> Croesawyd yn fawr llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru i Brif Swyddogion Cynllunio Awdurdodau Lleol yn ymwneud â Bioamrywiaeth a Gwella, dyddiedig 23ain Hydref 2019. Mae'r llythyr hwn yn egluro - yng ngoleuni Deddf Amgylchedd (Cymru) a Pholisi Cynllunio Cymru 10 - os na fydd gwella bioamrywiaeth wedi ei gynnwys fel rhan o gais, rhoddir pwysau sylweddol ar hyn ac onibai bod ystyriaethau pwysig eraill yn dangos i'r gwrthwyneb, bydd yn ofynnol gwrthod caniatâd. Cafodd hyfforddiant bioamrywiaeth ei ddarparu ar gyfer cymdeithasau tai lleol er mwyn cael cydweithrediad cynnar yn achos prosiectau i ddod. Mae hyfforddiant bioamrywiaeth wedi ei gynnwys yn awr fel rhan o gyfarfod blynyddol yr Awdurdod gydag Asiantau Cynllunio.</p>	<p>Gweler y dangosyddion prosiect e.e. 90ha o goed conwydd wedi eu clirio o goetir gwlyb Brynteg. Ennill tendr ar gyfer adfer 1.4km o glogfeini yn Afon Eden.</p> <p>Mae ymchwil yn dangos y dylai poblogaethau gylfinir sefydlog gynhyrchu ≥ 0.5 cyw/y pâr/y flwyddyn. Nid yw'r ffigurau ar gyfer Eryri yn wybyddus.</p> <p>Cyflwynwyd pori ysgafn gan wartheg ar 3.7ha o SoDdGA Llwyniarth.</p> <p>Nifer o ystlumod yn defnyddio clwydi cyn ac wedi ymyrraeth.</p> <p>Dangosyddion monitro wedi eu cynnwys yn Adran 5 ac Atodiad 1 (Tabl 1) o Adroddiad Monitro Blynyddol CDLI Eryri APCE.</p>
--	---	--

NRAP Amcan 3: Cynyddu cadernid ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd diraddiedig a chreu cynefinoedd

<p>Adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cadarn</p>	<p>Enghreifftiau o adfer ecosystemau diraddiedig</p> <p><u>Llanymawddwy</u> Derbyniwyd £18k o gronfa CNC ‘Rheoli Llifogydd Naturiol/ Creu Cynefinoedd er mwyn cau 7.1km o ffosydd mewn mawn dyfn ar gyn safle coedwigaeth ar y Berwyn yn Ionawr 2019.</p> <p><u>Mawndiroedd Ucheldir Eryri</u> Cafodd y prosiect £82k hwn ei gwblhau gan APCE yn ystod y cyfnod 2018-19 (wedi ei ariannu’n rhannol gan gylch ariannu ‘Open Call’ SMNR CNC. Roedd y gwaith yn canolbwyntio ar ACAs Migneint-Arenig-Dduallt (M-A-D) a Berwyn a mawndiroedd cyfagos. Roedd y gwaith yn cynnwys gosod seilwaith (e.e. grid gwartheg) i alluogi gwartheg i bori ar fawndir yn cynnwys llawer o <i>Nardus</i> a <i>Juncus squarrosus</i>, clirio coed atgynhyrchiol <i>sitka spruce</i> a <i>lodgepole pine</i> o gorsydd blanced, diwreiddio <i>rhododendron ponticum</i>, a chodi ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd mawndiroedd (e.e. taith gan Gymdeithas Edward Llwyd, lansio sgwrs ‘Cyfoeth Ein Corsydd’ Dinas Mawddwy, ymchwil maes gyda myfyrwyr Coleg Glynllifon).</p> <p><u>Prosiect SMS Mawndiroedd Cymru</u> Caiff Grŵp Gweithredu Mawndiroedd Cymru - prosiect SMS Cymru gyfan - ei arwain gan APCE. Mae’r gweithgareddau yn amrywio e.e. datblygu cytundebau Côt Mawndiroedd, hyfforddi, addysgu, monitro, ymchwilio, adfer mawndir blanced wedi ei goedwigo, ac adfer cyforgors, ail broffilio <i>peat hagg</i>– gweler e.e. www.youtube.com/watch?v=JMUUiuA9Ijs & www.youtube.com/watch?v=78McNjDZbWY & www.iucn-uk-peatlandprogramme.org/projects/welsh-peatlands-project-sustainable-management-scheme-0</p> <p><u>Partneriaeth Tirwedd Carneddau CDL</u> Cafodd y prosiect £4M hwn ei ddatblygu a’i gynhyrchu ar y cyd rhwng 2017-19, gyda chyllid oddi wrth GDL ar gyfer y cam gweithredu (2020-2025). Mae nifer o themâu a pheynnau gwaith bioamrywiaeth yn rhan hanfodol o’r prosiect hwn. Mae adrannau’r prosiect yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cylchdaith y Carneddau • Pori’r ucheldiroedd • Gwyddoniaeth ‘Lidar citizen’ • Dolydd • Gorwelion (yn cynnwys <i>montane heath</i>) • Y cylch dŵr: mawn ac afonydd • Coed, coetiroedd a gwrychoedd <p>Mae Cyfranogaeth, Cyfathrebu a Grantiau yn greiddiol i’r cynllun cyfan. Gweler www.snowdonia.gov.wales/looking-after/carneddau-partnership</p>	<p>Mae data mesur coredau ar gael os bydd angen ar gyfer cymharu heidograffau cyn ac yn dilyn cau ffosydd.</p> <p><i>R. ponticum</i> wedi ei ddileu yma ac acw o 326ha o fewn ac yn ymyl M-A-D ac ACAs Berwyn. <i>Sitka spruce</i> a <i>lodgepole pine</i> wedi eu clirio o 361ha o M-A-D ac ACAs Berwyn a thir cyfagos. Cyflwyno pori ysgafn gan wartheg yn yr haf i 90ha o ACA Berwyn.</p> <p>Gweler dangosyddion prosiect a amlinellir yn y cais e.e. ≤5 cytundeb Côt Mawndiroedd.</p> <p>Gweler dangosyddion prosiect a amlinellir yn y cais</p>
--	---	--

--	--	--

NRAP Amcan 4: Mynd i'r afael â'r pwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

<p>Delio gyda ffactorau negyddol e.e. lleihau llygredd, defnyddio datrysiadau sydd wedi eu seilio ar natur, rhoi sylw i rywogaethau ymledol</p>	<p><u>Prosiect Rhododendron Mynydd Hen Gapel</u> Cafodd y prosiect £99k hwn ei gyflawni gan APCE yn ystod y cyfnod 2018-19 (wedi ei ariannu'n rhannol trwy gylch ariannu CNC SMNR 'Open Call'). Roedd y prif ffocws ar symud ymaith floc strategol bwysig o <i>Rhododendron ponticum</i> oedd wedi hadu i mewn i fosaic o gynefinoedd lled-naturiol mewn ardal yn Nantgwynant - heblaw am hynny nid oedd wedi ei heintio ac roedd y Rhododendron wedi ei drin yn drylwyr yn y gorffennol.</p> <p><u>Prosiect Fforestydd Glaw Celtaidd Cymru LIFE</u> Nôd y prosiect £7.5M hwn yw gwella cyflwr 5 ACA yng ngorllewin Cymru sydd â chynefinoedd o'r math 'Fforestydd Glaw Celtaidd' a'u rhywogaethau hanfodol. Gweler https://celticrainforests.wales</p> <p><u>Prosiect SMS Uwch Gwyrfai</u> Mae'r prosiect blaengar hwn yn gweithio i drawsnewid Tir Comin Uwch Gwyrfai a'i rywogaethau (e.e. grug, tir glas asid, llynnoedd, llaciau a chorsydd) trwy ei ailgysylltu gyda chymunedau lleol. Y nôd yw galluogi porwyr i ddatrys problemau tan-bori trwy gydweithio'n well, pori'r tir comin, gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo economi gwledig yr ardal leol.</p> <p><u>Prosiect Rhywogaethau Ymledol Anffroddol</u> Mae APCE yn bartner yn y prosiect hwn. Mae canlyniadau e-DNA (heb fod yn derfynnol) yn awgrymu bod presenoldeb cimwch afon America yn bosibl ar ran uchaf yr afon Dyfrdwy. Mae wardeniaid APCE yn ymgymryd â'r gwaith o edrych ar y gorsafoedd monitro cimwch afon yn nalgyrch uchaf yr afon Dyfrdwy – nid oedd y rhain yn cofnodi'r cimwch afon yn 2019. Wardeniaid APCE sydd yn gyfrifol am gydlynu'r rhaglen 10 mlynedd + (ac sydd yn awr yn weithredol) ar reoli Jac y Neidiwr a Clymog Japan yn nalgyrch Llyn Tegid a'r afonydd o'i gwmpas, sef rhan uchaf dalgyrch yr afon Dyfrdwy.</p> <p><u>Menter Gwella Tirwedd Grid Cenedlaethol – ariannu rheoli Rhododendron, adfer PAWS ac adfer terfynnau traddodiadol.</u> Mae dau brosiect yn Nyffryn Ffestiniog wedi derbyn arian (gwerth £200k yr un) er mwyn galluogi APCE i wella cysylltedd cynefinoedd ac annog bywyd gwyllt, diogelu coetiroedd hynafol a rheoli rhywogaethau ymledol megis y <i>Rhododendron ponticum</i>, Clymog Japan a bambŵ. Mae prosiect arall (gwerth £200k) ar y gweill i adfer ffiniau traddodiadol sydd wedi eu diraddio a'u malurio (e.e. gwrychoedd)</p>	<p>+++++</p> <p>85ha o'r brif ffynhonnell hadau <i>Rhododendron ponticum</i> sydd yn weddill wedi ei reoli yn Nantgwynant.</p> <p>Gweler y dangosyddion prosiect.</p> <p>Gweler y dangosyddion prosiect.</p> <p>Gweler www.dinns.org.uk/en/</p> <p>Safle PAWS 25ha wedi ei dorri a'i glirio. Ei ail stocio gyda choed llydanddail brodorol. 200ha o dir (ffridd, llydanddail a choetiroedd masnachol) lle mae Rhododendron yn cael ei reoli.</p>
---	--	--

NRAP Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

<p>Gwella'r defnydd o dystiolaeth wrth lunio penderfyniad</p>	<p>Mae gan APCE Gytundeb Lefel Gwasanaeth blynyddol gyda Cofnod (Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru) a bydd yn defnyddio data Cofnod wrth lunio penderfyniadau. e.e. penderfyniadau polisi a chynllunio, cynllunio prosiectau. Mae staff maes APCE wedi eu hannog a'u hyfforddi i gyflwyno pob cofnodion biolegol ar-lein i Cofnod. Mae APCE yn gweithio'n agos gyda Cofnod er mwyn trosglwyddo data o wahanol ffynonellau e.e. adroddiadau ar archwiliadau biolegol a gyflwynir gyda cheisiadau cynllunio.</p> <p>Mae APCE yn gweithio gyda – ac yn ariannu – dau fyfyrwr KESS ym Mhrifysgol Aberystwyth University i ymchwilio i effeithiau amgylcheddol <i>Rhododendron ponticum</i>.</p> <p>Mae APCE yn bartner yn y Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP). Nôd ERAMMP yw cyflawni rhaglen monitro a modelu fydd yn casglu data ar draws tirwedd Cymru ac yn canfod cysylltiad rhwng unrhyw newidiadau a'u heffeithiau ar amrywiaeth eang o fuddion yn cynnwys bioamrywiaeth. APCE sydd yn cyflogi'r Swyddog ERAMMP Tirwedd Cymru Dynodedig.</p> <p>Mae APCE yn astudio bwlch tystiolaeth trwy ddatblygu cynnig mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor i archwilio symudiadau a deiet geifr gwyllt yn ACA Eryri trwy ddefnyddio technegau meta-barcodio DNA.</p> <p>Mae APCE yn hwb lleol ar gyfer cydlynu cyrff dyfrgwn a bwydo i mewn i Brosiect Dyfrgwn Prifysgol Caerdydd a bas data lleoliad lladd dyfrgwn Asiant Priffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru Mae'r Prosiect Dyfrgwn yn rhedeg cynllun arsylwi amgylcheddol hirdymor, gan ddefnyddio dyfrgwn a ganfyddir yn farw er mwyn archwilio difwynwyr, heintiau a bioleg y boblogaeth ledled y DU.</p> <p>Mae gan un aelod staff APCE drwydded i gyflawni arolwg o glwydi ystlumod a thylluanod magu a monitro ymweliadau –</p>	<p>Mae dangodyddion monitro cynllunio wedi eu cynnwys yn Adran 5 ac Atodiad 1 (Tabl 1) o Adroddiad Monitro CDLI APCE.</p> <p>Mae data o ystod eang o ffynonellau yn cael ei gasglu wrth gynhyrchu Adroddiad Cyflwr y Parc bob 5 mlynedd.</p> <p>O leiaf pedwar papur wedi eu cyhoeddi Yn dilyn prosiectau KESS.</p> <p>Gweler https://erammp.wales</p> <p>Caiff papur(au) gwyddolol eu cyhoeddi ar ôl cwblhau'r ymchwil.</p> <p>Gweler www.cardiff.ac.uk/otter-project. Nifer y manau peryclaf i ddyfrgwn RTA lle mae mesurau atal wedi eu rhoi mewn lle.</p> <p>Erthygl 17 CNC yn adrodd. Data cyrff adar yn bwydo i PBMS - https://pbms.ce</p> <p>Mae pump aelod o staff APCE yn weithredwyr drôn cymwys.</p>
---	--	---

caiff y canlyniadau eu mewnbynnu i Cofnod, eu hadrodd i CNC trwyddedu, a'u bwydo i Erthygl 17 CNC. Mae APCE yn hyb ar gyfer codi ymwybyddiaeth lleol o'r Cynllun Monitro Adar Ysglyfaethus (PBMS).

Mae APCE wedi prynu drôn ar gyfer nifer o ddibenion casglu data a monitro ac wedi hyfforddi staff yn hydref 2019 i fod yn weithredwyr drôn cymwys. Un enghraifft o'r defnydd ohono yw defnyddio data ffôs a drychiad ar gyfyrgors ddiraddedig er mwyn gweithio allan lle byddai blocio a bwndio traeniau yn fwyaf effeithlon ar gyfer codi tablau dŵr.

NRAP Amcan 6: Sefydlu fframwaith o lywodraethu a chefnogi darparu.

<p>Sicrhau rheolaeth i fioamrywiaeth o fewn APCE</p>	<p>Yn y pen draw, Prif Weithredwr ac aelodau APCE sydd yn gyfrifol am sicrhau bod camau bioamrywiaeth yn cael eu gweithredu ledled yr Awdurdod.</p>	<p>Caiff dyletswydd Adran 6 ei monitro a'i hadolygu fel yr amlinellwyd yng Nghynllun Eryri. Ceir adroddiad ar gydymffurfiant S6 o 2020 ymlaen yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol .</p>
<p>Darparu lle i fioamrywiaeth</p>	<p>Mae gan APCE Uwch Ecoleydd (Cynllunio) ac Uwch Ecolegyd (Prosiectau). Mae'r swydd a grewyd yn ddiweddar sef Cydlynnydd Gwirfoddoli a Llesiant yn un newydd ar strwythur staffio APCE, ac yn sicrhau gwell cydlyniant rhwng cyfleoedd gwirfoddoli a gwella bioamrywiaeth. Mae gwasanaeth Wardeniaid APCE yn awr yn ymwneud â chynnwys cymunedau lleol a grwpiau addysgol mewn gweithgareddau bioamrywiaeth trawsdoriadol. Mae bioamrywiaeth yn greiddiol i fwyaf rif prosiectau APCE. Cedwir cysylltiad agos gyda holl gynghorau cymuned Eryri trwy gynnal cyfarfodydd a chyfathrebu yn gyson. Mae hyn yn arwain at gyfleoedd i gydweithio a hyrwyddo bioamrywiaeth. Bydd APCE yn cadeirio ac yn darparu ysgrifenyddiaeth ar gyfer digwyddiad rhwydweithio a chefnogi bioamrywiaeth Fforwm Bywyd Gwyllt Eryri. Mae teulu Parciau Cenedlaethol y DU yn darparu Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) yn flynyddol ar ffurf cyfarfodydd / hyfforddiant 3 diwrnod ar gyfer Ecolegwyr Parciau Cenedlaethol, Swyddogion Cydlynu Amaeth/Adnoddau Naturiol ayyb.</p>	<p>Gweler www.eryri.llyw.cymru/</p>
<p>Cefnogi camau bioamrywiaeth trwy ariannu a/neu bartneriaethau</p>	<p>Mae APCE yn bartner yn y Prosiect Partneriaeth Natur Lleol (LNP) 2019-2022 a ariennir gan Lywodraeth Cymru sef 'Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant'. Mae'r prosiect hwn yn ariannu cydlynnydd prosiect 0.6FTE . Mae APCE wedi gwneud hon yn swydd lawn amser hyd fis Mawrth 2022 trwy ychwanegu 0.4FTE ar gyfer gwaith bioamrywiaeth ehangach/gwaith gwella S6 yn Eryri. Mae prosiect LNP Cymru yn darparu £7k y flwyddyn ar gyfer gwaith bioamrywiaeth uniongyrchol gan randdeiliaid, ac yn ychwanegu £10k arall dros gyfnod 3 blynedd y prosiect gan APCE.</p> <p>Fel aelod o Grŵp Awdurdodau Perthnasol Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau (PLAS) a Grŵp Cydlynu PLAS, mae APCE yn cadeirio'r ddau Grŵp ac yn gwbl ymroddedig i'w gwaith. Mae APCE yn cyfrannu £3,100 yn flynyddol tuag at y gôst o gyflogi Swyddog ACA Pen Llŷn a'r Sarnau.</p> <p>Mae partneriaethau a grewyd trwy Gynllun Yr Wyddfa a Chynllun Eryri yn hyrwyddo amcanion prosiectau ochr yn ochr â nifer o sefydliadau, busnesau a grwpiau cymunedol ledled y Parc Cenedlaethol.</p>	<p>Cydlynnydd Bioamrywiaeth APCE Cymru wedi ei benodi ym mis Tachwedd 2019 i hyrwyddo Amcnaion prosiectau bioamrywiaeth LNP Cymru a gwaith ehangach yn Eryri.</p> <p>Gwella rheolaeth a chyfranogaeth o fewn SAC PLAS e.e. treialu angorau helical ym Mhorthdinllaen er mwyn lleihau niwed i'r gwelyau morwellt.</p>

Adolygiad o dyletswydd S6

Beth sydd wedi gweithio'n dda? Beth oedd y rhwystrau? Beth ydych am ei newid?

- Mae mabwysiadu dyletswyddau S6 wedi bod yn ddi-broblem i'r Awdurdod o ran gweithredu o ddydd i ddydd gan eu bod yn cyd-redeg gyda phrif bwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Mae hyn wedi cryfhau'r agwedd a fabwysiadwyd gan Awdurdodau Lleol eraill ar y ffin â'r Parc sef rhoi mwy o sylw i fioamrywiaeth, ac mae gan rai NGOs ac Asiantaethau eraill y Llywodraeth well dealltwriaeth o fioamrywiaeth. Mae i ryw raddau wedi cryfhau safiad a gwerthfawrogiad o bwrpasau'r Parc Cenedlaethol.
- Yr anfantais o fod ar y blaen gyda bioamrywiaeth yw'r pwysau a roddir ar adnoddau'r Awdurdod wrth i gyrff a sefydliadau ddymuno i ni eu "partneru" hwy ar brosiectau neu raglenni gwaith oherwydd ein gwybodaeth arbenigol. Heb adnoddau digonol, mae'n anodd ymateb i bob galwad ac o ganlyniad mae cyfleoedd yn cael eu colli.

Pa bryd a sut y caiff dyletswydd S6 ei fonitro a'r cynllun S6 ei adolygu?

- Bwriedir cynnwys gofynion S6 yn y mecanwaith a ddefnyddir i baratoi Adroddiad Cyflwr y Parc a'r Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol. Bydd hyn yn golygu y bydd angen llai o adnoddau i gydlynu adroddiadau a bydd yn cynnwys Dyletswyddau S6 o fewn rhaglen waith yr Awdurdod a gwaith craffu yr Aelodau.